



ADENNILL FFRWYTHAU DROS BEN ABERTAWE

Teitl Rôl Gwirfoddolwr: **Gyrrwr Ffrwythau**

Diben

Mae ein gyrrwyr ffrwythau yn ddolen gyswllt hanfodol yng nghadwyn yr hyn a wnawn. Pan fydd y ffrwythau wedi'u casglu o'r coed, byddwch yn mynd â'r nhw yn agosach i'r bobl sy'n aros i'w bwyta drwy eu cludo i'r pwynt casglu ar gyfer ein dosbarthwr, FareShare Cymru. Bydd gyrrwr FareShare yn casglu'r blychau o ffrwythau dros y diwrnodau nesaf ac yn eu dosbarthu i fanciau bwyd lleol a phrosiectau rhannu bwyd cymunedol, fel Matt's Café. Drwy wirfoddoli yn y rôl hon, byddwch yn gwneud cyfraniad hanfodol at waith rhoi bwyd lleol o safon yn nwylo ac yng nghegau pobl yn Abertawe na fyddai'n gallu ei fforddio fel arall. Byddwch chi hefyd yn helpu'r amgylchedd oherwydd bod ffrwythau lleol yn golygu llai o allyriadau, gan nad ydynt yn cael eu cludo yma o Loegr, Tsieina neu wledydd yn yr UE. Ar ben hynny, pan fydd y ffrwythau hyn yn cael eu bwyta, mae'n arbed allyriadau a achosir o'u cludo i Gaerfyrddin i'w compostio, sef tynged gwastraff gerddi yn Abertawe.

Gweithgareddau a awgrymir

Mae gwirfoddolwyr yn y rôl hon yn casglu'r blychau o ffrwythau o'r safle casglu ac yn eu gyrru i bwynt casglu FareShare agosaf.

Bydd y gwirfoddolwyr yn y safle casglu yn gallu llwytho'r blychau i'ch cerbyd ond bydd yn rhaid i chi eu dadlwytho ar eich pen eich hun. Ni fydd y blychau yn pwyso mwy na 12kg a bydd codi diogel yn rhan o sesiwn sefydlu gryno pan fyddwn yn cwrdd am y tro cyntaf oherwydd ein bod ni am i chi fod mor ddiogel â phosib.

Amserlen

Byddwn yn amserlennu'r gwaith casglu ffrwythau ar ddiwrnodau gwahanol yn ystod yr wythnos a thros y penwythnos yn ystod y cyfnod cynhaeafu rhwng mis Awst a mis Hydref. Bydd gwaith casglu ffrwythau yn digwydd rhwng 11:30 am a 6:00 pm. Eich dewis chi yw faint o amser rydych chi am ymrwymo. Gallwch chi yrru'r ffrwythau fel gweithgaredd un tro neu gallwch chi wirfoddoli'n fwy rheolaidd – beth bynnag sy'n gweithio i chi.

Safle

Byddwn yn casglu ffrwythau mewn amrywiaeth o leoliadau awyr agored, gan gynnwys parciau, gerddi, tiroedd busnesau a thir comin. Mae'r rhan fwyaf o'n safleoedd o fewn radiws 8 cilomedr o ganol dinas Abertawe.

Goruchwyliaeth

Un i un gyda rheolwr y prosiect drwy apwyntiad. Gallwch siarad â rheolwr y prosiect dros y ffôn neu drwy e-bost.

Rhinweddau

I wirfoddoli am y rôl hon, rhaid eich bod chi'n yrrwr diogel gyda mynediad i gerbyd i gludo'r ffrwythau a bod yn gyffyrddus yn codi blychau sy'n pwyso hyd at 12kg. Byddwn yn casglu ffrwythau o goed ledled Abertawe felly bydd y teithiau hyn yn amrywio o ran hyd. Mae brwdfrydedd am ein cenhadaeth yn fantais fawr!

Buddion

- Hyfforddiant codi a chludo blychau o ffrwythau yn ddiogel.
- Ad-daliad costau petrol ar gyfradd 35c y cilomedr am y daith yno ac yn ôl i'ch tŷ.
- Ffrwyth! Dewch â bag plastig neu gynhwysydd arall gyda chi er mwyn mynd â ffrwyth adref gyda chi.
- Profiad o gyfrannu at ffynhonnell bwyd newydd a charbon isel yn Abertawe.